Cwmcarn Forest Drive Re-opening

Frequently Asked Questions

1. When does Cwmcarn Forest Drive re-open to visitors?

Monday 21st June, 10am

2. What are the opening times throughout the year?

1st March – 31st October, 10am – 6pm (Last entry 4pm)

1st November – End of February, Weekends only, 10am - 4pm (Last entry 2pm)

3. How much does it cost?

Just £8 per car, which includes access to numerous picnic areas and accessible walks, various adventure playgrounds and storytelling areas and breath-taking panoramic views of the South Wales Valleys and across the Bristol Channel.

The ticket also enables free parking on the valley floor if you fancied a bite to eat in the popular Raven's Café, a visit to the gift shop to pick up a souvenir or a gentle stroll around the lake once visiting the drive.

Cwmcarn Forest Drive is the ideal opportunity to spend the whole day with friends and family, as there really is something for everyone.

Mini bus (1-16 seater) £15

Coach (17+ seater) £30

Motorbike £4

4. Do I pre-book?

No pre-booking available, please arrive at the barrier and pay for your admission via cash only. Please note, we do not accept card payment at the barrier at the moment. This facility will be available shortly.

5. I only have card, how do I enter?

Please visit the visitor centre on the valley floor to pay, we will then give you a token to allow you access to the drive.

6. How long does it take to see the entire drive?

The drive is 7 miles long and takes approximately 30 minutes minimum to complete (If you did not stop at any carparks, adventure play areas or viewpoints) and depending on capacity.

The average visit lasts approx. 2 hours.

7. Is there a limit to how much time we can spend on the drive?

There is no limit to how long you can spend visiting Cwmcarn Forest Drive. If you wish to spend the afternoon with the family basking in the sunshine and enjoying the panoramic views, you're welcome to stay until closing time (note times above)

8. I need to pop home as I forgot the BBQ, can I leave the drive and come back later in the day?

Unfortunately, no, once you exit the drive there is no re-entry (unless you pay the admission fee again)

9. I missed car park 3, can I turn around and go back?

Unfortunately, no, we operate a one-way system along the drive. Once you pass a particular car park or viewpoint, you cannot turn around or reverse, so please plan accordingly using the map provided at the barrier. Alternatively you can download a copy on our website beforehand here: https://www.cwmcarnforest.co.uk/activities/CWMCARN-FOREST-DRIVE/

Please note, due to the valley landscape of Cwmcarn Forest Drive, phone signal is intermittent in some locations, so we would advise you download a copy of the map prior to visiting, so as it is saved on your mobile device.

10. Do you offer season tickets?

Yes, season tickets are available for £60 per vehicle. Vehicle registration is taken at time of booking. Please contact the visitor centre on 01495 272001. Non-transferable.

11. Can I bring a BBQ?

Yes of course. Our car parks have dedicated BBQ areas (Car parks 1, 3, 4 & 6) but please respect our facilities and dispose of your BBQs correctly in the bins provided.

NOTE: Disposable BBQs only. No coal BBQs are permitted.

12. Is the drive fully accessible?

We're pleased to inform our visitors that all our car parks along the newly improved Cwmcarn Forest Drive are fully accessible with designated disabled parking bays and toilets in car parks 1, 3, 4 & 6.

13. What facilities are along the drive?

The drive is equipped with toilets and baby changing facilities.

We are appealing to all visitors to avoid parking in disabled bays unless you are authorised to do so.

14. What if I get locked in after closing time?

Last entry is 2 hours prior to closing time, which will enable you ample time to see the drive. Please ensure you give yourself plenty of time to visit and plan accordingly.

Our rangers will check the drive prior to locking the barriers, however in the unlikely circumstance you are locked in, please contact 07817 002874 (a charge of £40 will apply, payable prior to release).

15. The weather isn't looking great, are you open?

During inclement weather such as snow, fog, mist or if the drive is particularly icy, we reserve the right to close the drive without notice due to health and safety. Please keep an eye on our social media accounts where we will make any announcements.

16. I want to avoid crowds, when is the best time to visit?

We're anticipating a high volume of visitors in the coming weeks, so please check our Facebook page before travelling. We will be posting regular updates on the Forest Drives capacity.

We have ample parking for up to 120 cars along the 7-mile route, but if you would prefer a less crowded experience, please arrive early and avoid peak days/times e.g weekends.

17. I'm at the barrier and there is a queue, are you full?

The drive has a 120-car capacity. Once capacity has been reached, the barrier will operate a one in, one out policy. We're anticipating a high volume of visitors in the first few weeks of re-opening. We would advise you try to visit during weekdays if possible.

Ffordd Goedwig Cwmcarn yn ailagor

Cwestiynau cyffredin

1. Pryd mae Ffordd Goedwig Cwmcarn yn ailagor i ymwelwyr?

Dydd Llun 21 Mehefin, 10am

2. Beth fydd yr oriau agor drwy gydol y flwyddyn?

1 Mawrth i 31 Hydref, 10am–6pm (mynediad olaf am 4pm)

1 Tachwedd i diwedd mis Chwefror, Penwythnosau yn unig, 10am–4pm (mynediad olaf am 2pm)

3. Faint mae'n ei gostio?

Dim ond £8 y car, sy'n cynnwys mynediad i nifer o fannau picnic a theithiau cerdded hygyrch, mannau chwarae antur a mannau adrodd straeon amrywiol a golygfeydd panoramig ysblennydd o Gymoedd De Cymru ac ar draws Môr Hafren.

Mae'r tocyn hefyd yn galluogi parcio am ddim ar lawr y cwm os ydych chi'n ffansio tamaid i'w fwyta yn y caffi poblogaidd – Caffi'r Gigfran – ymweld â'r siop anrhegion i gael cofrodd neu fynd am dro hamddenol o amgylch y llyn ar ôl ymweld â'r Ffordd Goedwig.

Mae Ffordd Goedwig Cwmcarn yn cynnig cyfle delfrydol i dreulio'r diwrnod cyfan gyda ffrindiau a theulu, gan fod rhywbeth at ddant pawb mewn gwirionedd.

Bws mini (1–16 o seddi) £15

Coets (17 o seddi neu ragor) £30

Beic modur £4

4. A ddylwn i gadw lle ymlaen llaw?

Nid oes system cadw lle ymlaen llaw ar gael; cofiwch gyrraedd y tollborth a thalu ag arian parod yn unig i gael mynediad. NODER: Nid oes modd talu â cherdyn wrth y tollborth ar hyn o bryd. Bydd y cyfleuster hwn ar gael yn fuan.

5. Dim ond cerdyn sydd gen i, sut mae mynd i mewn?

Ewch i'r ganolfan ymwelwyr, ar lawr y cwm, i dalu; yna byddwn ni'n rhoi tocyn i chi er mwyn caniatáu i chi gael mynediad i'r Ffordd Goedwig.

6. Faint o amser mae'n ei gymryd i weld y Ffordd Goedwig gyfan?

Mae'r Ffordd Goedwig yn 7 milltir o hyd ac yn cymryd oddeutu 30 munud o leiaf i'w chwblhau (os nad ydych chi'n stopio mewn unrhyw feysydd parcio, mannau chwarae antur neu olygfannau) ac yn dibynnu ar nifer y ceir ar hyd y Ffordd Goedwig.

Ar gyfartaledd, mae'r ymweliad yn para oddeutu 2 awr.

7. Oes cyfyngiad ar faint o amser y gallwn ni ei dreulio ar y Ffordd Goedwig?

Nid oes cyfyngiad ar faint o amser y gallwch chi ei dreulio yn ymweld â Ffordd Goedwig Cwmcarn. Os ydych chi am dreulio'r prynhawn gyda'r teulu yn torheulo ac yn mwynhau'r golygfeydd panoramig, mae croeso i chi aros tan amser cau (noder yr oriau agor uchod).

8. Mae angen i mi bicio adref gan fy mod i wedi anghofio'r barbeciw, oes modd gadael y Ffordd Goedwig a dod yn ôl yn hwyrach yn y dydd?

Yn anffodus, nac oes. Ar ôl gadael y Ffordd Goedwig, nid oes modd dod i mewn eto (oni bai eich bod chi'n talu'r ffi mynediad eto).

9. Collais i faes parcio 3, oes modd troi rownd a mynd yn ôl?

Yn anffodus, nac oes. Rydyn ni'n gweithredu system unffordd ar hyd y Ffordd Goedwig. Ar ôl pasio maes parcio neu olygfan penodol, nid oes modd troi rownd na bacio'n ôl, felly cynlluniwch yn unol â hynny gan ddefnyddio'r map sy'n cael ei ddarparu wrth y tollborth. Fel arall, gallwch chi lawrlwytho copi oddi ar ein gwefan ymlaen llaw yma: https://www.cwmcarnforest.co.uk/cy/activities/ffordd-goedwig-cwmcarn/

NODER: Oherwydd tirwedd Ffordd Goedwig Cwmcarn, mae'r signal ffôn yn ysbeidiol mewn rhai mannau, felly byddem ni'n awgrymu eich bod chi'n lawrlwytho copi o'r map cyn dod, a'i gadw ar eich dyfais symudol.

10. Ydych chi'n cynnig tocyn tymor?

Ydyn, mae tocyn tymor ar gael am £60 y cerbyd. Bydd angen rhoi rhif cofrestru'r cerbyd wrth archebu. Cysylltwch â'r ganolfan ymwelwyr ar 01495 272001. Ni ellir ei drosglwyddo.

11. Oes modd dod â barbeciw?

Oes, wrth gwrs. Mae mannau barbeciw pwrpasol ar gael yn ein meysydd parcio (meysydd parcio 1, 3, 4 a 6), ond parchwch ein cyfleusterau a chael gwared ar eich barbeciw yn gywir yn y biniau.

NODER: Barbeciwiau untro yn unig. Ni chaniateir barbeciwiau glo.

12. Ydy'r Ffordd Goedwig yn gwbl hygyrch?

Rydyn ni'n falch o roi gwybod i'n hymwelwyr fod ein holl feysydd parcio ar hyd Ffordd Goedwig Cwmcarn ar ei newydd wedd yn gwbl hygyrch gyda chilfachau parcio a thoiledau dynodedig i bobl anabl ym meysydd parcio 1, 3, 4 a 6.

13. Pa gyfleusterau sydd ar gael ar hyd y Ffordd Goedwig?

Mae toiledau a chyfleusterau newid cewynnau ar gael ar hyd y Ffordd Goedwig.

Rydyn ni'n apelio ar bob ymwelydd i osgoi parcio mewn cilfachau parcio i bobl anabl oni bai bod gennych chi'r hawl i wneud hynny.

14. Beth os byddaf i'n cael fy nghloi i mewn ar ôl amser cau?

Y mynediad olaf yw 2 awr cyn yr amser cau, a fydd yn eich galluogi chi i gael digon o amser i weld y Ffordd Goedwig. Sicrhewch eich bod chi'n rhoi digon o amser i'ch hun i ymweld â'r Ffordd Goedwig, a dylech chi gynllunio yn unol â hynny.

Bydd ein ceidwaid yn edrych cyn cloi'r tollbyrth, ond o dan yr amgylchiadau annhebygol lle rydych chi'n caei eich cloi i mewn, cysylltwch â 07817 002874 (bydd tâl o £ 40 yn berthnasol, yn daladwy cyn ei ryddhau).

15. Nid yw'r tywydd yn edrych yn wych – ydych chi ar agor?

Yn ystod tywydd garw fel eira neu niwl, neu os yw'r Ffordd Goedwig yn arbennig o rewllyd, rydyn ni'n cadw'r hawl i gau'r Ffordd Goedwig heb rybudd am resymau iechyd a diogelwch. Cadwch lygad ar ein cyfrifon ar y cyfryngau cymdeithasol lle byddwn ni'n gwneud unrhyw gyhoeddiadau.

16. Rydw i am osgoi torfeydd – pryd yw'r amser gorau i ymweld?

Rydyn ni'n rhagweld nifer fawr o ymwelwyr yn ystod yr wythnosau nesaf, felly edrychwch ar ein tudalen Facebook cyn teithio. Byddwn ni'n postio diweddariadau rheolaidd ar gapasiti'r Ffordd Goedwig.

Mae gennym ni ddigon o le i barcio ar gyfer hyd at 120 o geir ar hyd y llwybr 7 milltir, ond os byddai'n well gennych chi gael profiad gyda llai o bobl, cyrhaeddwch yn gynnar ac osgoi dyddiau/oriau brig, e.e. penwythnosau.

17. Rydw i wrth y tollborth ac mae ciw – ydych chi'n llawn?

Mae lle i hyd at 120 o geir ar hyd y Ffordd Goedwig. Ar ôl cyrraedd yr uchafswm, bydd y tollborth yn gweithredu polisi un allan, un i mewn. Rydyn ni'n rhagweld nifer fawr o ymwelwyr yn ystod yr wythnosau cyntaf ar ôl ailagor. Byddem ni'n eich cynghori chi i geisio ymweld yn ystod dyddiau'r wythnos os yn bosibl.